Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Siarter Archwilio Mewnol

## 1.0 Diben

1.1 Datganiad lefel uchel o'r modd y caiff archwilio mewnol ei weithredu a'i ddatblygu yw'r Siarter hon ac mae'n rhoi diffiniad ffurfiol o ddiben, awdurdod a chyfrifoldebau Archwilio Mewnol yng Nghomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad).

1.2 Dyma sut y mae Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU yn diffinio Archwilio Mewnol:

*'Internal auditing is an independent, objective assurance and consulting activity designed to add value and improve an organisation's operations. It helps an organisation accomplish its objectives by bringing a systematic, disciplined approach to evaluate and improve the effectiveness of risk management, control and governance processes.'*

1.3 Diben y broses Archwilio Mewnol yw rhoi gwybod i Gomisiwn y Cynulliad fod trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol wedi'u sefydlu a'u bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

1.4 Mae Archwilio Mewnol yn cyflawni'r diben hwnnw drwy roi sicrwydd annibynnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r system reolaethau a sefydlwyd i reoli'r risgiau yng Nghomisiwn y Cynulliad, er mwyn medru cyflawni nodau'r sefydliad a sicrhau atebolrwydd am arian cyhoeddus.

## 2.0 Awdurdod

2.1 Mae'r rheidrwydd i wneud gwaith archwilio mewnol wedi'i gynnwys yn Egwyddorion Llywodraethu a Darpariaethau Ategol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (adran D2).

2.2 Mae'r safonau ar gyfer 'arferion priodol' mewn perthynas â gwaith archwilio mewnol wedi'u nodi yn Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU (y Safonau).

**3.0 Cyfrifoldebau**

3.1 Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad yn gyfrifol am sicrhau:

- bod fframwaith priodol o reolaethau doeth ac effeithiol ar gael, fel y gellir asesu a rheoli risgiau, a chymryd risgiau'n bwyllog;
- bod atebolrwydd clir ar gyfer rheoli risgiau; a
- bod swyddogion yn meddu ar y sgiliau perthnasol ac yn cael yr arweiniad angenrheidiol i gyflawni'r rolau a bennwyd iddynt yn effeithiol ac yn effeithlon.

3.2 Mae Archwilio Mewnol yn gyfrifol am werthuso systemau a rheolaethau Comisiwn y Cynulliad.

3.3 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn gyfrifol am reoli gwaith archwilio mewnol yn effeithiol yn unol â'r *Diffiniad o Archwilio Mewnol, y Cod Moeseg* a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

**4.0 Diffiniadau**

4.1 Mae'r Safonau yn cyfeirio at 'y Bwrdd' fel y grŵp llywodraethu sy'n gyfrifol am ddarparu sicrwydd annibynnol ynghylch pa mor ddigonol yw'r fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol a chywirdeb adroddiadau ariannol. Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad (ACARAC) sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon mewn perthynas â Chomisiwn y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn darparu sicrwydd o'r fath i Gomisiwn y Cynulliad; drwy ei Adroddiad Blynyddol; a diweddariadau interim drwy'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am Adnoddau'r Cynulliad.

4.2 Yn yr un modd, mae'r Safonau'n diffinio Uwch Reolwyr fel y rhai sy'n gyfrifol am roi arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad. Yng

Nghomisiwn y Cynulliad, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad a Bwrdd Rheoli Comisiwn y Cynulliad sy'n cyflawni'r rôl hon.

**5.0 Safle yn y sefydliad**

5.1 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn atebol yn swyddogaethol i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad. Ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol, neu ei gynrychiolydd, yn cyflwyno adroddiad yn crynhoi gwaith y gwasanaeth Archwilio Mewnol ac unrhyw ganfyddiadau yn ystod y cyfnod dan sylw.

5.2 Bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd yn gallu cysylltu'n uniongyrchol â Chlerc a Phrif Weithredwr Comisiwn y Cynulliad, sef Swyddog Cyfrifyddu Comisiwn y Cynulliad, a byddant yn cyfarfod yn rheolaidd.

**6.0 Adnoddau Archwilio Mewnol**

6.1 Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol gymwysterau proffesiynol ([1]CCAB, CMIIA[2] neu gymhwyster cyfwerth), bydd yn gallu manteisio ar raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a bydd yn meddu ar brofiad ym maes archwilio, llywodraethu a rheoli risg.

6.2 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cael cymorth gan gyflenwr allanol sy'n darparu gwasanaethau archwilio mewnol, i helpu i ddatblygu ac ymgymryd â gwaith ar gyfer aseiniadau archwilio mewnol penodol.

6.3 Mae cyfrifoldebau gweithredol penodol y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r cyflenwr allanol wedi'u hamlinellu yn Atodiad A y Siarter.

---

[1] CCAB - yn cyfeirio at y Pwyllgor Ymgynghorol Cyrff Cyfrifyddiaeth ac ar hyn o bryd yn cynnwys pum corff aelodau: Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA); Cyfrifwyr Siartredig Iwerddon (CAI); Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA); Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW); a Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban (ICAS).

[2] CMIIA – yn cyfeirio at Aelod Siartredig o'r Sefydliad Archwilwyr Mewnol, sef y lefel uchaf o gymhwyster Archwilio Mewnol yn y Deyrnas Unedig.

6.4 Bydd disgwyl i'r cyflenwr allanol fod â thîm cymwys, hyfforddedig a chymwysedig (lle mae hynny'n briodol), a bydd y tîm hwn yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus.

6.5 Dylai staff y cyflenwr hefyd amlygu arbenigedd penodol, hanes o lwyddiant wrth ddarparu amrywiaeth o wasanaethau archwilio mewnol a phrofiad perthnasol o waith archwilio mewnol yn y sector cyhoeddus. Bydd y cyflenwr yn amcangyfrif yr adnodd archwilio y bydd ei angen i gwblhau pob elfen o'r cynllun archwilio a thrafod a chytuno ar hyn gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol.

6.6 Mae'n rhaid i bawb sy'n ymwneud â gwaith archwilio mewnol gadw at God Moeseg Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

**7.0 Annibyniaeth a gwrthrychedd**

7.1 Ni fydd unrhyw ymyrraeth yn y modd y bydd Archwilio Mewnol yn pennu cwmpas ei waith, y modd y mae'n cyflawni'i waith ac yn rhoi gwybodaeth am ei waith. Bydd archwilwyr mewnol yn ddigon annibynnol ar y gweithgareddau y maent yn eu harchwilio i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau mewn modd sy'n caniatáu iddynt roi barn a gwneud argymhellion proffesiynol diduedd ac effeithiol.

7.2 Os caiff annibyniaeth neu wrthrychedd ei amharu mewn ffaith neu ymddangosiad, bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn datgelu manylion yr amhariad i'r Prif Weithredwr a'r Clerc a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Bydd natur y datgeliad yn dibynnu ar yr amhariad.

7.3 Y Pennaeth Archwilio Mewnol yw Pennaeth Gwasanaeth Tîm Llywodraethu ac Archwilio Comisiwn y Cynulliad. Mae gan y Tîm hwn nifer o swyddogaethau sy'n gysylltiedig â llywodraethu. Fel y daw'n amser archwilio un o'r swyddogaethau hyn yn fewnol, bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn sicrhau bod mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn sicrhau nad yw annibyniaeth a gwrthrychedd yn cael eu peryglu.

7.4 Yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth Gwasanaeth, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Adnoddau. Fodd bynnag, mae hefyd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, i ddiogelu annibyniaeth y rôl ac i sicrhau na all y rhai sy'n destun archwiliad ddylanwadu ar asesiad tâl a pherfformiad.

7.5 Mae gan y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd fynediad rhydd a digyfyngiad at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

7.6 Gall y Prif Weithredwr a'r Clerc a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg roi adborth i gyfrannu at broses Rheoli Perfformiad ac Adolygu Datblygiad (gwerthuso perfformiad) y Pennaeth Archwilio Mewnol.

**8.0 Hyfedredd a gofal proffesiynol priodol**

8.1 Bydd Archwilio Mewnol yn ymgymryd â'u gwaith gyda'r gofal, y cymhwysedd a'r diwydrwydd priodol. Ni all Archwilio Mewnol nodi pob gwendid rheoli neu afreoleidd-dra. Fodd bynnag, mae Archwilio Mewnol yn cynllunio ei waith er mwyn gallu darparu sicrwydd rhesymol parthed rheolaethau a archwiliwyd, o fewn cwmpas yr adolygiad.

8.2 Bydd gan yr holl archwilwyr mewnol ddyletswydd barhaus i ddatblygu a chynnal eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u barn broffesiynol ar sail hyfforddiant priodol, gallu, cywirdeb, gwrthrychedd a pharch.

8.3 Bydd archwilwyr mewnol hefyd yn ymwybodol o'r *Diffiniad o Archwilio Mewnol, y Cod Moeseg a'r Safonau* a byddant yn cadw at y rhain wrth ymgymryd â'u dyletswyddau.

**9.0 Cwmpas gwaith archwilio**

9.1 Mae cwmpas gwaith Archwilio Mewnol yn cynnwys archwilio a gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad, trefniadau rheoli risg, system rheolaeth fewnol, ac ansawdd perfformiad wrth gyflawni cyfrifoldebau a neilltuwyd i sicrhau'r nodau a'r amcanion a nodwyd gan y

sefydliad. Mae'n cynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- Adolygu pa mor ddibynadwy a chywir yw'r wybodaeth ariannol a gweithredol a'r dulliau a ddefnyddir i adnabod, mesur, dosbarthu, ac adrodd am wybodaeth o'r fath;
- Adolygu'r systemau a sefydlwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisïau, cynlluniau, gweithdrefnau, cyfreithiau, a rheoliadau hynny a allai gael effaith sylweddol ar weithrediadau, ac adrodd ynghylch a yw'r sefydliad yn cydymffurfio;
- Adolygu'r dull o ddiogelu asedau ac, fel sy'n briodol, gwirio bodolaeth asedau o'r fath;
- Adolygu a gwerthuso'r economi a pha mor effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio, gall hyn gynnwys meincnodi a rhannu arfer gorau;
- Adolygu gweithrediadau neu raglenni i weld a yw canlyniadau yn gyson â nodau ac amcanion y sefydliad ac a yw'r gweithrediadau neu'r rhaglenni'n cael eu gweithredu yn ôl y bwriad;
- Adolygu gweithrediadau penodol ar gais y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg neu'r rheolwyr. Gall hyn gynnwys meysydd o bryder a nodwyd yn y gofrestr risg gorfforaethol;
- Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg y sefydliad a'r system sicrwydd gyffredinol;
- Sicrhau cydlynu effeithiol, fel sy'n briodol, gydag archwilwyr allanol; ac
- Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a baratowyd gan yr uwch reolwyr.

9.2 Bydd Archwilio Mewnol yn rhoi sylw arbennig i unrhyw agweddau ar y trefniadau rheoli risg, trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol yr effeithir arnynt gan newidiadau materol yn amgylchedd risg y sefydliad.

9.3 Os bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn ystyried bod lefel yr adnoddau archwilio neu'r Siarter yn cyfyngu ar gwmpas yr archwiliad mewnol mewn unrhyw ffordd, neu'n amharu ar allu archwilio mewnol i ddarparu gwasanaethau sy'n gyson â'r diffiniad o archwilio mewnol, bydd yn rhoi gwybod i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, yn unol â hynny.

9.4 Mae cwmpas y gweithgarwch archwilio o fewn Comisiwn y Cynulliad yn cael ei gategoreiddio yn bum categori gwahanol o ran ymagwedd a chyflenwi archwilio ac mae'r Siarter yn amlinellu'r rhain yn Atodiad B.

## 10.0 Twyll, llygredd a llwgrwobrwyaeth

10.1 Cyfrifoldeb y rheolwyr yw rheoli'r risg o dwyll, llygredd a llwgrwobrwyaeth. Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynorthwyo rheolwyr i ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn yn effeithiol.

10.2 Bydd Archwilio Mewnol yn cynllunio'u gwaith mewn modd sy'n sicrhau ei bod yn rhesymol disgwyl iddynt ganfod twyll a nodi unrhyw wendidau sylweddol o ran rheolaeth fewnol.

10.3 Ni all gweithdrefnau Archwilio Mewnol, ar eu pennau'u hunain, warantu y caiff twyll, llygredd ac afreoleidd-dra eu canfod, hyd yn oed os cânt eu dilyn â'r gofal proffesiynol priodol.

10.4 Nid yw Archwilio Mewnol yn gyfrifol am atal a chanfod twyll, llygredd neu lwgrwobrwyaeth. Bydd yr archwilwyr mewnol, fodd bynnag, yn effro bob amser i risgiau a chysylltiadau a allai arwain at dwyll, llygredd neu lwgrwobrwyaeth.

## 11.0 Adrodd

*Adroddiad blynyddol a barn y Pennaeth Archwilio Mewnol*

11.1 Bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn cyflwyno barn archwilio blynyddol ac adroddiad; ac adroddiad twyll blynyddol. Mae'r Swyddog Cyfrifo yn ystyried yr adroddiadau hyn ac yn myfyrio arnynt yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

11.2 Bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys y canlynol o leiaf:

- Y farn;
- Crynodeb o'r gwaith sy'n ategu'r farn;
- Datganiad ar gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus; a
- Chanlyniadau'r rhaglen sicrhau ansawdd a gwella parhaus.

*Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg*

11.3 Mae Archwilio Mewnol yn sicrhau annibyniaeth sefydliadol pan fydd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn adrodd yn swyddogaethol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Siarter yn amlinellu enghreifftiau o'r mathau o adroddiadau yn Atodiad B.

*Adrodd i'r Rheolwyr*

11.4 Ar ddiwedd pob aseiniad archwilio, bydd canfyddiadau ac argymhellion drafft yr adolygiad archwilio yn cael eu rhannu â'r rheolwyr llinell perthnasol, a chaiff hyn ei gydlynu gan Noddwr yr Archwiliad (h.y. y person sy'n gyfrifol am y maes sy'n cael ei adolygu – e.e. Pennaeth Gwasanaeth).

11.5 Bydd Archwilio Mewnol yn mynd i'r afael ag adroddiadau archwilio terfynol i'r Noddwr Archwilio. Yn dilyn hynny, bydd Clerc y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn trefnu i drosglwyddo'r adroddiadau i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

*Adrodd i Archwilwyr Allanol*

11.6 Bydd Archwilio Mewnol yn anfon adroddiadau archwilio terfynol at yr Arweinydd Ymgysylltu a'r Rheolwr Archwilio yn Swyddfa Archwilio Cymru.

## 12.0 Sicrhau ansawdd

12.1 Bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn sefydlu ac yn cynnal system sicrhau ansawdd ac yn paratoi adroddiad ar ganlyniadau hyn i'r Uwch Reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad allanol annibynnol bob pum mlynedd o'r gwasanaeth archwilio annibynnol.

12.2 Bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol, yr Uwch Reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio yn cytuno ar holl fanylion yr asesiad allanol.

## 13.0 Adolygu'r Siarter Archwilio Mewnol

13.1 Bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn adolygu'r Siarter hon yn flynyddol ac yn ei chyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i’w chymeradwyo.

# Atodiad A – Cyfrifoldebau Archwilio Mewnol

| Adnodd | Cyfrifoldebau |
|---|---|
| Pennaeth Archwilio Mewnol | • Cynlluniau archwilio strategol a gweithredol;<br>• Cynnal adolygiadau archwilio yn unol â'r cynllun archwilio;<br>• Cydweithio â'r rheolwyr i bennu a chytuno ar gwmpas a dull gweithredu ar gyfer yr holl adolygiadau archwilio;<br>• Monitro perfformiad contractwyr archwilio;<br>• Adolygu, cyhoeddi a chymryd cyfrifoldeb am yr holl adroddiadau archwilio drafft gan gynnwys y rhai a baratowyd gan y contractwyr;<br>• Cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig fel y nodwyd gan y Pwyllgor Archwilio a'r Uwch Reolwyr;<br>• Cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd i'r Uwch Reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio;<br>• Paratoi datganiad sicrwydd terfynol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu. |
| Cyflenwyr allanol | • Darparu cyngor a chyfrannu at y broses gynllunio;<br>• Datblygu cwmpasau, rhaglenni gwaith drafft a chynnal adolygiadau archwilio manwl o systemau gweithredol allweddol, gan gynnwys:<br>a) Gwaith sicrwydd cyffredinol;<br>b) Trefniadau llywodraethu a rheoli cyffredinol;<br>c) Adolygu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd economaidd;<br>d) Rheoli risg;<br>e) Archwiliadau TGCh. |

## Atodiad B - Enghreifftiau o Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

- Cymeradwyo'r siarter archwilio mewnol.
- Cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol.
- Cael gwybodaeth gan y Pennaeth Archwilio Mewnol am hynt y gwaith yn ymwneud â'r cynllun a materion eraill, gan gynnwys yr adroddiad a'r farn flynyddol.
- Holi rheolwyr a'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn briodol i benderfynu a oes cyfyngiadau amhriodol o ran cwmpas ac adnoddau.
- Cytuno ar gwmpas a ffurf yr asesiad allanol fel rhan o'r cynllun gwella a rheoli ansawdd.
- Derbyn canlyniadau asesiadau mewnol ac allanol y rhaglen gwella a sicrhau ansawdd, gan gynnwys meysydd nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion.
- Cymeradwyo gwasanaethau ymgynghori arwyddocaol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun archwilio eisoes, cyn y caiff eu penodiad ei dderbyn.